# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 13 Medi 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 15(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys 1

Dechreuodd yr eitem am 14.20

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith**

**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyhoeddiad Ford y bydd yn cynhyrchu llai o beiriannau yn ei ffatri ym Mhen-y-bont ar Ogwr? EAQ(5)0037(EI)

## Cwestiwn Brys 2

Dechreuodd yr eitem am 14.38

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Fyrddau Iechyd Prifysgolion Abertawe Bro Morgannwg, Caerdydd a'r Fro a Hywel Da yn sgil eu codi i statws ymyrraeth wedi'i thargedu? EAQ(5)0036(HWS)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: yr UE – trefniadau pontio

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

(60 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Digwyddiadau Chwaraeon Rhyngwladol o bwys

(30 munud)

## 6 Dadl ar y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18

(60 munud)

**NDM6082** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, fel y'u hamlinellir yn Camddefnyddio Sylweddau: Cynllun Cyflawni 2016-18.

**Dogfen Ategol**
Camddefnyddio Sylweddau: Cynllun Cyflawni 2016-18

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y problemau cynhenid o ran darparu gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau ledled Cymru, o gofio bod yr ystadegau diweddaraf gan Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau yn dangos mai dim ond 13 y cant o unigolion a ystyriwyd yn rhydd o sylweddau erbyn diwedd y driniaeth o bob un a gafodd eu cyfeirio i asiantaethau cyffuriau ac alcohol yng Nghymru.

'Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau'

**Gwelliant 2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fyfyrio ar y data diweddaraf gan GIG Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau a chyflwyno cynigion a fydd yn sicrhau bod camddefnyddwyr sylweddau yn cael gafael ar driniaeth amserol ac effeithiol.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 14 Medi 2016